

Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 19 HYDREF 2016, yn ystafell 2.21, Adeilad Rheidol, Canolfan Llanbadarn.

Yn bresennol: Yr Athro John Grattan, Is-Ganghellor Dros-Dro (Cadeirydd); Yr Athro Judy Broady-Preston, Cyfarwyddwr ADP; Yr Athro Jo Crotty, Cyfarwyddwr ABG; Yr Athro Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS; Yr Athro Qiang Shen, Cyfarwyddwr AMFfC; Yr Athro Tim Woods, Cyfarwyddwr ACD; Dr Sharon Huws, Dirprwy Gadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC); Yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion; Dr Gordon Allison; Dr Guy Baron; Dr Hazel Davey; Dr David Dowell; Yr Athro Andrew Evans; Dr Gwion Evans; Mr Nigel Hardy; Dr Anwen Jones; Dr Dafydd Rhys Jones; Dr Louise Marshall; Dr Jenny Mathers; Dr Ola Olusanya; Yr Athro Martyn Powell; Dr Simon Rodway; Mr Tim Davies; Ms Louise Jagger (tan gofnod 12); Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA; a Ms Lauren Marks, Llywydd UMAber.

Yn gweinyddu: Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Ms Emma Williams, Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion.

Roedd y canlynol wedi ymddiheuro am fod yn absennol: Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Yr Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr ADHGS; Dr Elin Royles, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y CCC; Yr Athro Rhys Jones; Dr Rachel Rahman; Yr Athro Malcolm Thomas; Mr Daniel Benham, Cyfarwyddwr Cyllid; and Ms Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

1. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

1. Croesawyd aelodau newydd y Senedd i'w cyfarfod cyntaf o'r corff llywodraethu academaidd, gan gynnwys y Cyfarwyddwyr Athrofa newydd a ddaeth i'w swyddi'n ddiweddar, a'r staff a'r cynrychiolwyr myfyrwyr etholedig a oedd wedi dechrau yn eu swyddi ers cyfarfod diwethaf y Senedd.
2. Roedd Dr Sharon Huws wedi'i phenodi'n aelod wrth gefn o'r CCC, ac roedd yn bresennol ar ran Dr Elin Royles. Yn yr un modd, roedd Dr Dafydd Rhys Jones yn bresennol fel aelod wrth gefn o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn lle'r Athro Rhys Jones.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Mike Foley, Athro yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol;
2. Yr Athro Kevin Shingfield, Athro Cadair Ffisioleg Maethol yn IBERS; a
3. Mair Williams, cyn-aelod o Gyngor y Brifysgol.

3. Swyddogaeth y Senedd

Ymddiheurodd yr Is-Ganghellor Dros-dro am wneud penderfyniadau dros yr haf ar ran y Senedd heb ymgynghori â chydweithwyr ar y corff llywodraethu academiaidd. Pwysleisiodd fod angen i'r Senedd weithio'n adeiladol gyda Gweithrediaeth y Brifysgol dros y misoedd i ddod gan fod y sefydliad yn wynebu nifer o heriau, fel pob SAU arall. Ar brydiau, efallai y bydd hyn yn galw ar i'r Senedd fod yn fwy chwim wrth weithredu a gallai'r aelodau drafod hyn ymhellach yn y Diwrnod Encil a gynhelir ar 16 Tachwedd 2016 (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2016 (SEN1617-003).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd, yn nodi'r cynnydd a wnaed ynglŷn â symud y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfodydd diweddaraf yn eu blaen (FSC1617-004).

NODWYD

1. Y diweddariad a ddarparwyd yng nghofnodydd y penderfyniadau.
2. Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru (cofnod 72.1)
 1. Gwnaeth Estyn ymweliad dilynol â'r Ganolfan rhwng 19 a 23 Medi 2016 a gwelwyd bod y ddarpariaeth yn cydymffurfio'n llwyr.

PENDERFYNWYD

2. Y dylai'r Senedd ysgrifennu'n ffurfiol at yr Athro Malcolm Thomas i'w longyfarch ef a'i dîm ar y gwaith caled a wnaethant i sicrhau llwyddiant yr ymweliad dilynol (**GWEITHREDU**: Is-Ganghellor Dros-dro).
2. Model Dyrannu a Rheoli Llwyth Gwaith (cofnod 76)
 1. Yn y sesiwn 'pecyn cinio' a gynhaliwyd i aelodau'r Senedd ar 12 Mai 2016, argymhellwyd y dylid rhoi hyfforddiant i'r rhai sy'n arwain ac yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cynllun Cyfraniad Effeithiol, y mae'r Model Llwyth Gwaith yn rhan ohono.
 2. Er bod hyfforddiant technegol wedi'i roi, teimlai'r aelodau y gellid mabwysiadu dull mwy strwythuredig i ategu'r dogfennau cefndirol sydd ar wefan yr adran Cynllunio a Llywodraethu.
3. Papur Gwyn Llywodraeth San Steffan (cofnod 77)
 1. Roedd Llywodraeth San Steffan yn symud ymlaen gyda chyflwyno'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA) yn Lloegr. Gall Sefydliadau Addysg Uwch [SAU] Cymru fod yn rhan ohono, er na fyddant yn gallu cynyddu'r ffioedd a godir ar

israddedigion Cartref / UE yn yr un modd â SAU yn Lloegr. Nododd yr aelodau bod rhai SAU yn Lloegr yn ystyried hefyd cynyddu ffioedd dysgu i'w myfyrwyr presennol lle nad oedd wedi'i nodi'n benodol bod carfan o fyfyrwyr wedi'u diogelu yn erbyn hynny.

2. Ar hyn o bryd, roedd y Brifysgol yn ystyried a ddylai'r sefydliad gymryd rhan yn ail gyfnod y FfRhA. Sefydliar gweithgor i baratoi cyflwyniad pe byddai'r Brifysgol yn dewis cymryd rhan yn y Cyfnod hwn.

PENDERFYNWYD

3. Pe byddai'r brifysgol yn dewis cymryd rhan yng Nghyfnod Dau FfRhA, y dylai'r cyflwyniad drafft gael ei ddsbarthu i aelodau'r Senedd er mwyn cael eu sylwadau (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cynllunio).

5. GOHEBIAETH

Roedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi dosbarthu'r sylwadau a dderbyniwyd gan rai o academyddion a myfyrwyr Adran y Gyfraith a Throseddeg yn ymwneud ag ystyriaeth y Senedd i ddiwygiadau i Ordinhad 23, a fyddai'n cynnwys ailenwi'r uned academiaidd. Byddai'r sylwadau hyn yn cael eu hystyried ymhellach ar yr un pryd ag y byddai'r prif waith papur yn cael ei ddsbarthu yng nghyswllt y newidiadau a gynigiwyd.

6. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR DROS-DRO

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan yr Is-Ganghellor Dros-dro (SEN1617-005);
2. Penderfyniad a wnaed gan y Cyngor ar 18 Hydref 2016 (SEN1617-022).

NODWYD

3. Yn ystod y diwrnod encil ar 17 a 18 Hydref 2016, roedd y Cyngor wedi ystyried y Llythyr Risg Sefydliadol blynyddol oddi wrth y Cyngor Cyllido a'r heriau yn wynebu'r sector. O ganlyniad i drafodaethau'r Cyngor, cytunwyd ar benderfyniad yn ystod cyfarfod ffurfiol y corff llywodraethu ar brynhawn y 18 Hydref yn amlinellu ymateb cadarnhaol y Brifysgol i'r heriau hynny a'r ymdrechion a oedd yn cael eu gwneud i gynyddu cynaliadwyedd y sefydliad.
4. Cyhoeddwyd 'Arolwg Diamond' o Drefniadau Cyllid Myfyrwyr a Chyllido Addysg Uwch yng Nghymru ar 27 Medi 2016, yn argymhell cyflwyno grantiau cynhaliadaeth ar sail prawf modd yn lle'r nawdd presennol i ffioedd dysgu myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru. Byddai'r arbedion yn darparu 'Difidend Diamond' i'r sector, er y byddai maint y cyllid ar gael yn amrywio yn ôl nifer y myfyrwyr cymwys i dderbyn cymorth yn y dyfodol.

7. CYNLLUN LLWYDDIANT MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Tim Woods; a Phennaeth Dros Dro yr Uned Rheoli Prosiectau a Newid (SEN1617-006).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn ystyried yr hyn a gyflawnwyd gan y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr ym mlwyddyn academiaidd 2015–16. Yn y flwyddyn 2016–17, cafodd yr elfennau a gwblhaodd eu gwaith eu diddymu, a chyflwynwyd tair elfen newydd yn ymwneud ag: adnoddau llyfrgell, mesurau dadansoddi dysgu, a mentoriaid myfyrwyr.

Byddai'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr yn cael ei ail-lansio'n ffurfiol am y flwyddyn i ddod ar 03 Tachwedd 2016.

2. Cyflwynir nifer o newidiadau i Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr o 2017 ymlaen. Roedd goblygiadau'r newidiadau hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, er y byddai'r strwythurau a ddarperir gan y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr yn cynorthwyo'r Brifysgol i ymateb yn gadarnhaol.
3. Er bod y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr yn canolbwyntio ar israddedigion, roedd yr aelodau o'r farn y byddai'r gwaith a wnaed yn sgil nifer o'r elfennau o fudd i fyfyrwyr ar gyrsiau uwchraddedig. Byddai hyn yn cael ei ystyried fel y bo'n briodol.

8. CYNLLUN ACADEMAIDD CYFRWNG-CYMRAEG

NODWYD

Cafodd yr adroddiad ei dynnu'n ôl a byddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Senedd (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).

9. DARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL

DERBYNIWYD

Adroddiad Ymweliad Safle a Memorandwm o Gytundeb i ddarparu cyrsiau gradd sylfaen trwyddedig a 'Paratoi i Ddysgu' yng Ngholeg Cambria; a chynnig am Femorandwm o Gytundeb i ddarparu cyrsiau gradd FdSc yng Ngholeg Gwent (SEN1617-008).

NODWYD

1. Ar 21 Medi 2016, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried cynigion i wneud cytundeb gyda Choleg Cambria a Choleg Gwent ar gyfer darpariaeth gydweithrediadol.
2. Wedi ymweld â Choleg Cambria ac ystyried nifer o ddogfennau a sail rhesymegol y cynnig, argymhelliad cyffredinol Panel yr Ymweliad Safle oedd y dylid cymeradwyo'r trwyddedu a gynigiwyd gyda Choleg Cambria, yn ddibynnol ar nifer o amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad. Cafodd yr argymhelliad ei gadarnhau gan y Bwrdd Academaidd.
3. Cafodd Adroddiad yr Ymweliad Safle yng nghyswllt y trwyddedu a gynigir gyda Choleg Gwent ei ystyried a'i gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Mai 2016. Felly, cyflwynwyd y Memorandwm o Gytundeb hwnnw i'w ystyried ar 21 Medi 2016 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai gael ei gymeradwyo gan y Senedd.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r trwyddedu arfaethedig gyda Choleg Cambria, yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU:** Pennaeth y Ddarpariaeth Gydweithrediadol).
5. Cymeradwyo'r trwyddedu arfaethedig gyda Choleg Gwent, yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yng nghofnod 19.3.1 o gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 21 Medi 2016 (**GWEITHREDU:** Pennaeth y Ddarpariaeth Gydweithrediadol).

10. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-009).

NODWYD

1. Bydd yr un nifer yn fras o israddedigion Cartref / UE amser llawn yn cael eu derbyn ar gyfer mynediad ym mis Medi â'r llynedd, ond ni fyddai union nifer y cofrestrïadau'n cael eu cofnodi'n ffurfiol tan ddyddiad cyfrifiad blynyddol y sector ar 01 Tachwedd. Er bod canlyniad refferendwm aelodaeth y Deyrnas Gyfunol yn yr Undeb Ewropeaidd wedi achosi cyfradd drosi is o blith myfyrwyr yr UE, bu'r effaith yn fwy yn achos niferoedd y myfyrwyr Cartref oherwydd bod sefydliadau eraill wedi dod i mewn i'r Clirio ar y funud olaf i geisio hybu incwm cyn Brexit.
2. Cafwyd gwelliant yn nagosyddion allanol y Brifysgol dros yr haf, yn enwedig yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, lle cynyddodd sgôr cyffredinol y sefydliad o 83 i 92 y cant. Priodolwyd y llwyddiant i ymgyrch Rho Wybod Nawr a'r Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr.
3. Croesawodd yr aelodau'r dangosfwrdd newydd – ALADdin – a gafodd ei ddatblygu'n bennaf i'w ddefnyddio gan Diwtoriaid Personol. Dywedwyd y gellid defnyddio ALADdin yn reddfol a'i fod yn gweithio'n dda.
4. Wrth i gynnwys rhaglenni academiaidd fynd trwy drefn achredu i sicrhau cysondeb safonau, teimlai rhai aelodau y dylai arferion marcio gael eu safoni ymhellach. Mae hyn yn cael ei symud ymlaen trwy gyfrwng grŵp dwy flynedd, newydd, Gwella Asesu ac Adborth. Cyflwynir canfyddiadau interim i'r Senedd ar ôl y Pasg 2017 (**GWEITHREDU:** Yr Athro Tim Woods).
5. Cafodd strwythur cyfredol y flwyddyn academiaidd ei grybwyll, a holodd rhai aelodau a ddylid gwneud modiwlau ffurfiannol, hirach yn rhai safonol.

PENDERFYNWYD

6. Ystyried strwythur cyfredol y flwyddyn academiaidd yn ystod diwrnod encil y Senedd ar 16 Tachwedd 2016 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

11. ADRODDIAD AR Y PORTFFOLIO ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-010).

NODWYD

1. Roedd y brifysgol, trwy'r Grŵp Nawdd Marchnata a Denu Myfyrwyr, wedi comisiynu'r ymgynghorwyr marchnata, The Knowledge Partnership, i wneud arolwg portffolio o bob un o'r pum Athrofa yn y Brifysgol. Ers hynny, derbyniwyd adroddiadau ar ddwy Athrofa, ac roedd arolygiadau'r tair Athrofa arall yn mynd rhagddynt.
2. Yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Senedd amlinellwyd y drefn ragarweiniol newydd a oedd yn cael ei datblygu i sicrhau bod argymhellion adroddiadau'r cwmni ymgynghorol yn cael eu symud ymlaen fel sy'n briodol heb oedi gormodol, gan gyfrannu i'r prosesau sy'n dod o fewn i gylch gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Academiaidd [PCDA] ar hyn o bryd. Yn unol â gofynion y llawlyfr Ansawdd Academiaidd, ymgynghorir â'r prif randdeiliaid mewnol yn rhan o'r drefn o wneud penderfyniadau.
3. Byddai'r drefn ragarweiniol yn cynnwys ymarfer pen-desg yn bennaf, i edrych ar oblygiadau unrhyw newidiadau sylweddol i bortffolio academiaidd y Brifysgol. Y teimlad oedd y byddai hyn yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Brifysgol cyn y byddai cynnig yn cael ei ganiatáu i fynd yn ei flaen i'r brif drefn o adolygu portffolio dan arweiniad y PCDA.

4. Atgoffwyd yr aelodau nad oeddent yn cael cais i edrych ar unrhyw gynigion penodol a allai gael eu cyflwyno ymhen amser. Ond, cydnabyddid y byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd dros y misoedd i ddod ynglŷn â darpariaeth y cyrsiau yn y dyfodol os yw PA i weithredu'n gynaliadwy.
5. Roedd angen rhagor o waith ar yr adroddiad i fanylu ar y ffordd y byddai'r broses ragarweiniol yn dechrau – yn benodol, a fyddai cynnig yn cael ei wneud gan yr Athrofa neu gan Weithrediaeth y Brifysgol mewn ymateb i argymhellion y cwmni ymgynghorol.

PENDERFYNWYD

6. Cael trafodaeth bellach am y gwaith a gomisiwynwyd gan y cwmni ymgynghorol, a'r drefn y byddai'n rhaid ei dilyn yn rhan o unrhyw arolwg o'r portffolio academiaidd, yn ystod diwrnod encil y Senedd ar 16 Tachwedd 2016 (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

12. CYNLLUN GWEITHREDU AR ÔL YMWELIAD YR ASA

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddfa Ansawdd Academiaidd a Chofnodion (SEN1617-011).

NODWYD

1. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol arolwg yr ASA ddechrau mis Awst 2016, yn dilyn ymweliad y tîm yn ystod mis Ebrill. Rhoddwyd copi o'r adroddiad terfynol ar safle SharePoint y Senedd (SEN1617-021).
2. Casgliad yr adroddiad terfynol oedd bod y Brifysgol wedi cyflawni'r holl ddisgwyliadau yn y pedwar maes dan sylw. Roedd hefyd yn nodi bod y drefn cyn-gofrestru a'r gefnogaeth wedi'i phersonoli i fyfyrwyr yn nodwedd o arfer da. Gwnaed pum argymhelliad gan y tîm arolygu, ac roedd y camau a gymerwyd gan y Brifysgol wedi'u hamlinellu yn nrafft y cynllun gweithredu.
3. O ganlyniad i'r cynllun gweithredu arfaethedig, cafodd y Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu ei ddirwyn i ben, a rhannwyd gwaith y pwyllgor hwnnw rhwng y Bwrdd Academiaidd a'r prif bwyllgorau eraill.

13. SIARTER Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-012).

NODWYD

1. Mae'r Cyngor Cyllido'n mynnu bod Prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn cytuno ar Siarter Myfyrwyr, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Cymeradwywyd Siarter Myfyrwyr cyfredol PA ddiwethaf gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2014, am y flwyddyn 2014–15. Adolygwyd Siarter y Myfyrwyr ymhellach ar gyfer blwyddyn academiaidd 2015–16, ond nid ystyriwyd bod angen newidiadau.
2. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2016–17, roedd Undeb y Myfyrwyr wedi cynnig nifer o ddiwygiadau i drefn a geiriad Siarter y Myfyrwyr. Cafodd y rhain eu hystyried gan y Bwrdd Academiaidd yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2016 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Senedd eu cadarnhau a'r Cyngor eu cymeradwyo, yn amodol ar rai mân newidiadau a ymgorfforwyd i fersiwn ddiweddaraf yr adroddiad.

3. Roedd y Cyngor wedi ystyried a chymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2016, yn amodol ar rai newidiadau pellach, cyhyd â bod aelodau'r Senedd yr un mor fodlon ar y newidiadau arfaethedig. Cafodd y Senedd adroddiad llafar o'r newidiadau y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y Cyngor.
4. Roedd y Bwrdd Academaidd wedi argymhell cyn hyn i'r Senedd y dylai adolygiad blynyddol Siarter y Myfyrwyr gael ei ymgorffori yn Natganiad Blynyddol Undeb y Myfyrwyr. Byddai newidiadau i Siarter y Myfyrwyr yn y dyfodol yn cael eu symud ymlaen i'w cymeradwyo o fewn y cyd-destun hwn.

PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo'r newidiadau i Siarter y Myfyrwyr, gan gynnwys y mân ddiwygiadau a gynigiwyd eisoes gan y Cyngor, yn amodol ar newid y pumed pwynt bwled yn ymwneud ag adolygu Undeb y Myfyrwyr i ddweud: "Cydwethio â myfyrwyr, y Brifysgol, alumni, a'r gymuned leol ac ehangach i wella bywyd myfyrwyr yn Aberystwyth" (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

14. ORDINHADAU

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-013);
2. Nodyn gwybodaeth gan academyddion Adran y Gyfraith a Throseddeg (SEN1617-023); a
3. Deiseb oddi wrth fyfyrwyr Adran y Gyfraith a Throseddeg (SEN1617-024).

NODWYD

4. Dros yr haf, cytunwyd ar nifer o newidiadau cyfundrefnol mewn dwy athrofa academaidd ac roeddent wedi eu gweithredu. Er mwyn sicrhau bod Ordinhadau'r Brifysgol yn adlewyrchu'r strwythur diweddaraf, gofynnwyd i'r Pwyllgor Siarter i ystyried y diwygiadau canlyniadol i Ordinhad 23 trwy ohebiaeth yn ystod mis Medi 2016.
5. Ar ôl ystyried y diwygiadau a gynigiwyd, argymhellodd y Pwyllgor Siarter y dylai'r Senedd eu cadarnhau a'r Cyngor eu cymeradwyo. Ond, dewisodd un o aelodau'r Senedd ar y Cyngor atall pleidlais, gan nodi nad oedd y corff llywodraethu academaidd wedi cael cyfle i drafod a chadarnhau'r newidiadau cyfundrefnol, yn unol â'i brif gyfrifoldebau.
6. Roedd nifer o academyddion y Gyfraith a Throseddeg wedi cyflwyno nodyn gwybodaeth i'w ystyried gan y Cyngor a'r Senedd ynglŷn ag ailenwi Adran y Gyfraith a Throseddeg yn Ysgol y Gyfraith, Aberystwyth. Cafodd y nodyn gwybodaeth ei ystyried gan y Cyngor yn ystod ei drafodaeth ar y diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 23 ar 18 Hydref 2016. Yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed yn y nodyn a'r sylwadau a wnaed gan aelod y Senedd ar y Pwyllgor Siarter, cytunodd y corff llywodraethu i aros am argymhelliad gan y Senedd cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y mater.
7. Eglurodd cynrychiolydd Ysgol y Gyfraith, Aberystwyth ar y Senedd nad oedd y safbwyntiau a fynegwyd gan academyddion y Gyfraith a Throseddeg yn adlewyrchu safbwyntiau'r uned academaidd gyfan.
8. Cafodd y sylwadau a wnaed gan fyfyrwyr y Gyfraith a Throseddeg yn eu deiseb, a dderbyniwyd y bore hwnnw cyn cyfarfod y Senedd, eu cydnabod gan yr aelodau. Esboniwyd nad oedd yn fwiad lleihau statws Troseddeg fel pwnc o fewn i frand newydd Ysgol y Gyfraith, Aberystwyth, a bod y cynigion yn gysylltiedig â brandio'r ddarpariaeth gyfredol.

9. Roedd yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth wedi peidio â bod fel uned academaidd ar 01 Awst 2016, yn unol â phenderfyniad a wnaed gan y Senedd a'r Cyngor yn y Gwanwyn. Serch hynny, byddai'r pwnc, Astudiaethau Gwybodaeth, wrth galon yr Athrofa Datblygiad Proffesiynol [ADP] newydd a grëwyd.
10. Roedd yr aelodau'n amheus o'r cynnig i ailfrandio Athrofa Iaith, Llenyddiaeth a'r Celfyddydau Creadigol yn Athrofa'r Celfyddydau a'r Dyniaethau – yn enwedig gan fod Hanes a Hanes Cymru yn rhan o Athrofa Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg.

PENDERFYNWYD

11. Argymhell i'r Cyngor y dylai'r diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 23 gael eu cymeradwyo fel a nodwyd yn yr adroddiad, yn amodol ar ailfrandio'r 'Adran Ieithoedd Ewropeaidd' yn 'Adran Ieithoedd Modern' i adlewyrchu penderfyniad blaenorol yn hyn o beth gan y Senedd a'r Cyngor (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
12. Gwahodd Cyfarwyddwr ADP ac Ysgrifennydd y Brifysgol i ystyried cynrychiolaeth y Senedd o ADP yn gyffredinol a dod ag argymhelliad i gyfarfod y corff llywodraethu academaidd yn y dyfodol (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

15. DIWRNOD ENCIL Y SENEDD

NODWYD

1. Y byddai'r Senedd nawr yn cynnal y diwrnod encil blynyddol ar fore'r 16 Tachwedd 2016, cyn y cyfarfod ffurfiol a oedd eisoes wedi ei drefnu ar gyfer y prynhawn hwnnw.

PENDERFYNWYD

2. Cynnwys y pynciau canlynol ar agenda'r diwrnod encil, o dan y thema ehangach o drawsnewid o fod yn sefydliad sydd wedi esblygu i fod yn sefydliad a gynlluniwyd (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol):
 1. Swyddogaeth a diben y Senedd, a sut y gall fod yn fwy chwim wrth gyflawni ei chyfrifoldebau;
 2. A yw strwythur cyfredol y flwyddyn academaidd yn cyflawni anghenion a disgwyliadau cyfoes;
 3. Y Cynllun Cyfrannu Effeithiol;
 4. Gwaith i fireinio strategaethau'r Brifysgol ar gyfer marchnata a denu myfyrwyr;
 5. Trafodaeth bellach ar y portffolio academaidd; ac
 6. Ymchwil ac Ysgolheictod.

16. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1617-014).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

17. PENODI IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-015).

NODWYD

Roedd y drefn o benodi Is-Ganghellor nesaf y Brifysgol yn symud yn ei blaen yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Dewis a sefydlwyd gan y Cyngor i arwain y drefn.

18. ADRODDIAD O'R COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gadeirydd Cangen PA y CCC (SEN1617-016)

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf i'r aelodau ar ddatblygiadau yng nghanen PA y CCC ers y cyfarfod diwethaf.

19. GRANTIAU YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-017).

NODWYD

Dyfarnwyd nifer o grantiau ymchwil i aelodau staff PA ers cyfarfod diwethaf y Senedd.

20. GWOBRAU ACADEMAIDD A DDYFARNWYD YN YSTOD 2015–16

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Karen Morgan, Cynorthwywydd Gweinyddol, Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (SEN1617-018).

NODWYD

Cafodd nifer o wobrau academaidd eu dyfarnu ar ran y Senedd i fyfyrwyr PA yn ystod blwyddyn academaidd 2015–16, ar sail meini prawf a bennwyd yn flaenorol.

21. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1617-019).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y defnyddiodd y Cadeirydd y Pwerau Gweithredol y darperir ar eu cyfer gan Reol Sefydlog 6.11.
2. Y materion a gymeradwywyd gan y Cadeirydd trwy Gamau Gweithredol oedd:
 1. penodi cynrychiolwyr o'r Senedd ar Bwyllgor Disgyblu Myfyrwyr;
 2. cymeradwyo ac argymhell nifer o newidiadau cyfundrefnol yn y Brifysgol i Gadeirydd y Cyngor, yn bennaf yng nghyswllt AILICC/ILLCA ac AADPG/IEGPD;

3. cymeradwyo mân ddiwygiadau i'r Rheoliad ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, yn ôl argymhelliad y Bwrdd Academaidd.

22. ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (SEN1617-020):

1. Y Bwrdd Academaidd (21 Medi 2016);
2. Y Cyngor (29 Mehefin 2016); a'r
3. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (27 Mai 2016).

NODWYD

4. Y Bwrdd Academaidd (21 Medi 2016)

Roedd yr aelodau wedi cytuno, oherwydd nifer is o fyfyrwyr, i beidio â chael prif leoliad arholiadau yng Nghanolfan Llanbadarn y flwyddyn academaidd hon. Ni fyddai hyn yn effeithio er gwaeth ar unrhyw garfan benodol o fyfyrwyr gan mai maint ystafelloedd yr arholiadau oedd yn bwysig yn hytrach na lleoliadau dysgu rhaglenni penodol.

5. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau eraill.